AMGUEDDFA
CYMRU




# Byw a bod...

## Adnodd athrawon oriel

*amgueddfa.cymru/dysgu/*


Dyma oriel sy’n canfod rhyfeddodau yn y pethau bychain. Yma cewch fusnesu ym mywydau pob dydd pobl Cymru, drwy’r cenedlaethau. Caiff hanesion pobl eu hadrodd yn eu geiriau nhw eu hunain, a thrwy’r gwrthrychau oedd yn bwysig iddynt.

Nid oes un ffordd i archwilio'r oriel felly gwnewch yn siŵr eich bod yn paru teitl pob tudalen yn yr adnodd hwn â'r teitl ar yr arddangosfa benodol rydych chi'n ei archwilio.



Mae gan yr oriel hon daith 360 ar gael ar-lein am ddim. Mae hyn yn golygu y gellir defnyddio'r adnodd hwn ar-lein yn hytrach nag yn bersonol.

Mae'r ddolen i'r daith 360 isod.




AMGUEDDFA CYMRU

Dewiswch y dangosydd

# Byw a bod...

gwisgo



bwyd



gweithio



hwyl a sbri



AMGUEDDFA CYMRU

gwely



marw



# Byw a bod...

gwisgo



Mae pobl yn mwynhau edrych yn dda. Ers cyn hanes, rydym wedi defnyddio gemwaith, dillad ac ymbincio i fynegi ein hunain a'n lle mewn cymdeithas. Archwiliwch yr adran hon i weld sut mae ffasiwn a steil wedi datblygu dros amser, a beth gall yr eitemau hyn ddweud wrthym am yr unigolion a fu'n eu gwisgo.

AMGUEDDFA CYMRU

**Dillad**
O atgofion o blentyndod i ffrogiau 'mynd allan' arbennig, mae dillad yn aml yn ein hatgoffa am adegau allweddol yn ein bywydau. Boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, mae cysylltiadau emosiynol yn aml yn mynnu ein bod yn cadw gafael ar y dillad hyn – maent yn arwydd o'r bywydau rydym wedi byw.




*June Tiley's first 'going out' dress*

AMGUEDDFA CYMRU

# Byw a bod...

gwisgo




*Torchau aur*
*Tiers Cross*

**Gemwaith**

Nid ffasiwn fodern yw gwisgo gemwaith. Roedd beddau’r bodau dynol modern cynharaf yn cynnwys gleiniau cregyn a dannedd anifeiliaid trydyllog, gan awgrymu bod addurno dillad yn ffordd ffasiynol o fynegi unigolrwydd pobl, ac efallai statws o fewn eu gr.p. Mae gemwaith o’r Gymru gynnar yn datgelu sut yr oedd statws cymdeithasol yn cael ei gyfleu a’i arddangos, ac mae’n arwydd o steiliau dillad yn newid hefyd.

**Ymbincio**

Wedi'i drimio, ei sythu, ei gribo neu'i gyrlio, mae pobl wedi bod yn torri a steilio'u gwallt er mwyn addurno a mynegi'u hunain trwy gydol hanes. Mae steiliau gwallt yn arwydd o ddosbarth cymdeithasol, oedran, statws priodasol, adnabyddiaeth hiliol, credoau gwleidyddol ac agweddau ar rywedd.




*Modrwyau gwallt aur o'r Oes Efydd Hwyr*

AMGUEDDFA
CYMRU



© Amgueddfa Cymru

*Coler Llandysul*

AMGUEDDFA CYMRU

# Trafodaeth...

- *Beth yw eich trefn foreol chi?*
- *Beth ydych chi'n ei wisgo er mwyn edrych yn dda?*
- *Ydych chi am edrych yn dda ar eich cyfer chi'ch hun neu ar gyfer pobl eraill?*
- *A ydych chi'n gwisgo dillad gwahanol ar gyfer achlysuron gwahanol neu adegau gwahanol o'r diwrnod/flwyddyn?*
- *O beth mae eich dillad wedi'u gwneud?*
- *A ydych chi'n gwisgo gemwaith?*
- *A oes gwahaniaethau rhwng beth mae bechgyn a merched yn ei wisgo? A ddylai fod?*

## Hefyd, ewch i...

*Siop y Teiliwr*




## Related resources...

*O Ddafad i Ddefnydd*



# Byw a bod...

bwyd

Yn yr adran hon o'r oriel, archwiliwch sut mae bwyd a diod wedi cael eu paratoi a'u bwyta yn y gorffennol, o goginio yn yr Oesoedd Canol, bwyta swper yn y 18fed ganrif i ddiwylliant caffi'r 1920au. Ystyriwch faint y gallwch ei ddysgu am fywyd rhywun o'r bwyd a gafodd, a beth all eich bwyd chi ei ddweud wrth rywun amdanoch chi.



Ystyriwch y straeon tu ôl i rai bwydydd a'r bobl a oedd yn eu gweini a'u bwyta o adroddiadau ysgrifenedig a llafar. Archwiliwch hanes teuluol mewnfudwyr o'r Eidal a ddaeth i Gymru yn ystod yr 20fed ganrif, a sut roeddent yn gwasanaethu'r cymunedau yr oeddent yn rhan ohonynt. Edrychwch ar wrthrychau cysylltiedig, rhai hardd ac ymarferol, fel y peiriant coffi mawr a ddaeth yr holl ffordd o'r Eidal ym 1921 i'w ddefnyddio yn Abertawe.



*Mewnforiwyd y peiriant coffi yma o'r Eidal ym 1921*

AMGUEDDFA CYMRU

# Byw a bod...

## bwyd

Cewch weld sut mae bwyd wedi'i ddefnyddio erioed i ddod â phobl at ei gilydd drwy'r thema gwledda. Dysgwch sut roedd bwyd yn cael ei gynnwys mewn digwyddiadau arbennig o dros 2,000 o flynyddoedd yn ôl, a chymerwch olwg fanylach ar yr offer arbennig a ddefnyddiwyd ar gyfer yr achlysuron ymgynnull hyn. Dyma ba mor bwysig fu bwyd ym mywyd pobl.



# Trafodaeth...

- *Beth yw eich hoff bryd bwyd?*
- *Pa fwyd sy'n cael ei dyfu yng Nghymru?*
- *Pa fwyd sy'n cael ei fewnforio/ei gludo i Gymru?*
- *Ble ydych chi'n prynu eich bwyd?*
- *Pwy sy'n paratoi eich bwyd?*
- *A ydych chi'n bwyta wrth y bwrdd?*
- *A yw bwyd yn chwarae rhan yn ystod achlysuron arbennig?*

## Hefyd, ewch i...

*Siop Gwalia*




## Hefyd, ewch i...

*Melin Flawd Melin Bompren*



AMGUEDDFA CYMRU

dychwelyd

# Byw a bod...

gweithio





Hyd nes y Chwyldro Diwydiannol, roedd y rhan fwyaf o bobl yn byw oddi ar y tir, yn gyntaf trwy gasglu a hela ac yna drwy ffermio. Dewch i weld sut roedd gweithio'r tir yn waith corfforol, caled, a oedd yn dibynnu'n llwyr ar y tymhorau a'r hinsawdd garw.

Daeth mecaneiddio yn hwyr i Gymru am fod technoleg newydd yn ddrutach na chyflogau pobl. Dim ond yn ystod yr Ail Ryfel Byd y daeth y defnydd o dractor yn fwy cyffredin, a hynny er mwyn cynyddu cynhyrchiant bwyd a lleihau mewnforion a oedd mewn perygl o ddioddef ymosodiadau gan longau tanfor yr Almaen.

AMGUEDDFA CYMRU

Daeth y Chwyldro Diwydiannol â newid i fywydau gwaith llawer o bobl yng Nghymru. Arweiniodd at ddatblygu trefi, twf cyflym yn y boblogaeth a'r profiad cyntaf o ddiweithdra modern. Roedd bywyd dan ddaear yn y pyllau glo yn galed, yn annifyr ac yn beryglus. Ac nid oedolion yn unig oedd yn gweithio yn y pyllau.



© Amgueddfa Cymru

AMGUEDDFA CYMRU

# Byw a bod...

gweithio




*Universal Colliery, Senghenydd, memorial plate*

Bu farw llawer o weithwyr yn y diwydiannau mwyngloddio, drwy afiechyd a damweiniau yn y gwaith. Yn Senghennydd oedd y trychineb gwaethaf yn hanes y diwydiant glo ym Mhrydain. Collodd 439 o ddynion a bechgyn eu bywydau. Cyn cyflwyno pensiwn y wladwriaeth ym 1909 a'r wladwriaeth les ym 1948, roedd rhaid i bobl ddibynnu ar gymorth gan elusennau, cymdeithasau a'u cymunedau pan nad oeddent yn gallu dod o hyd i waith.

Am amser hir, menywod oedd y gweithlu cudd. O ofal plant a gwaith tŷ i ddiwydiant tun a ffatrïoedd arfau'r Ail Ryfel Byd, mae menywod wedi bod yn weithwyr erioed, ond nid yw eu gwaith wastad wedi cael cydnabyddiaeth deg.

# Trafodaeth...

- *Beth yw gwaith?*
- *Beth mae'r oedolion yn eich bywyd yn ei wneud?*
- *Pa swydd fyddech chi'n hoffi ei gwneud pan fyddwch yn hŷn?*
- *Pam ydyn ni'n gweithio?*
- *A yw gwaith yn ddiogel?*
- *A yw gwaith yn bwysig?*

## Hefyd, ewch i...

## Related resources...

*Efail Llawr-y-glyn*



*Cymru a Glo*




AMGUEDDFA CYMRU

dychwelyd

# Byw a bod...

hwyl a sbri

Yn y rhan hon o'r oriel, cewch gip ar yr ochr hwyliog o fywyd yng Nghymru. Cewch ymgolli yn yr oriel wrth i ni gofio cymaint o hwyl sydd i'w gael a gweld sut roedd pobl yn mwynhau bywyd o dros 2,000 o flynyddoedd yn ôl hyd heddiw.



AMGUEDDFA CYMRU

Archwiliwch thema adloniant cartref a gweld sut roedd pobl Cymru yn ymlacio yn eu cartrefi. Mae amrywiaeth o deganau o wahanol gyfnodau ein hanes, o gemau bwrdd y Rhufeiniaid i Lego'r 20fed ganrif. A beth am y newidiadau ym maes technoleg cerdd yn y cartref – o'r ffonograff a'r gramoffon ar ddiwedd y 19eg ganrif i'r radio cartref yn y 1930au. Dysgwch am yr ymgyrch dros sianel deledu Gymraeg a lansio S4C ym 1982.


© Amgueddfa Cymru

*Radio gwasanaeth*


© Amgueddfa Cymru

*Radio bach cludadwy*


© Amgueddfa Cymru

*Teledu cludadwy*



Carafán, 1950

A beth am wyliau yng Nghymru? Dewch i glywed mwy am y teulu Dodds a'u carafán. Cewch gipolwg ar sut rydym ni'n cofio ein gwyliau ni yn ogystal â gweld enghreifftiau o gardiau post a anfonwyd gan bobl ledled Cymru, ac ystyried beth yw eich hoff ran chi o Gymru efallai.

## Trafodaeth...

- *Beth ydych chi'n ei wneud i gael hwyl?*
- *I ble'r ydych chi'n mynd i gael hwyl?*
- *Gyda phwy ydych chi'n cael hwyl?*
- *I ble ydych chi'n mynd ar wyliau?*
- *A yw pawb yn cael hwyl?*

### Hefyd, ewch i...

*Sefydliad y Gweithwyr Oakdale*



### Related resources...

*Teganau Traddodiadol o Gymru*





AMGUEDDFA CYMRU

# Byw a bod...

gwely

Mae gwely'n gymaint mwy na lle i gysgu. Gall gwelyau chwarae rhan bwysig mewn iechyd, marwolaeth, statws a hamdden.

Edrychwch ar wely Tuduraidd Syr Rhys ap Thomas, arglwydd cyfoethog y gellir gweld ei orchestion wedi'u cerfio ar draws ffrâm y gwely. A allwch chi weld y rhai sy'n darlunio Brwydr Bosworth? Mae'r gwely ei hun yn dangos campau Rhys, yn ogystal â'i gysylltiadau teuluol, rhywbeth a oedd yn wirioneddol bwysig yn oes y Tuduriaid.



AMGUEDDFA CYMRU




*Dima wely Syr Rhys ap Thomas*

AMGUEDDFA CYMRU

# Byw a bod...

## gwely

Yn y gornel hon o’r oriel, edrychwch ar y gwrthrychau sydd wedi’u defnyddio i wneud cysgu yn brofiad mwy cysurus. Cewch weld sut oedd pobl yn cadw’n gynnes trwy dechnoleg newydd fel poteli dŵr poeth a blancedi trydan.





© Amgueddfa Cymru

*Cynheswyn gwely*

# Trafodaeth...

- *Pa bryd ydych chi'n mynd i'r gwely?*
- *A yw cwsg yn bwysig?*
- *Pa mor bwysig yw eich gwely?*
- *A oes eich ystafell wely eich hun gennych?*
- *Ar gyfer beth arall ydych chi'n defnyddio eich ystafell wely?*
- *A oes gan bawb wely?*
- *Pa fathau o welyâu sydd i'w cael?*

## Hefyd, ewch i...

*Ffermdy ac adeiladau Kennixton*



## Hefyd, ewch i...

*Ffermdy ac iard Llwyn-yr-eos*



AMGUEDDFA CYMRU

dychwelyd


# Byw a bod...
marw

Mae'r adran hon yn trafod marwolaeth a chladdu dros 32,000 o flynyddoedd, a'r straeon y maent yn dweud wrthym am fywydau'r rheiny sydd wedi mynd.

Gall safleoedd claddu roi cliwiau i ni am statws, cyfoeth a chrefydd unigolyn, yn ogystal â'r gymuned neu'r gymdeithas yr oedd yn rhan ohoni. Os oedd yr unigolyn wedi'i gladdu gyda'i feddiannau, gallant ddangos tystiolaeth o'r hyn a oedd yn gwneud yn ystod ei fywyd. Er enghraifft, mae cyllyll a gwaywffyn yn awgrymu bywyd o hela, ymladd a ffermio.



Mae galaru a choffáu yn rhan o farwolaeth hefyd. Mae ein traddodiadau a seremonïau wrth gladdu ein meirw wedi datblygu drwy'r canrifoedd, ynghyd â'n credoau ac agweddau newidiol at farwolaeth a marw.




AMGUEDDFA CYMRU

# Byw a bod...
marw

Yn ystod ail hanner y 1800au, roedd galaru yn fusnes mawr wrth i amodau byw gwael a gofal iechyd cyfyngedig olygu fod llawer o bobl yn marw'n ifanc. Roedd rheolau a moesau cymhleth ynghlwm wrth alaru. Daeth yn arferiad i deuluoedd fynd drwy ddefodau manwl i goffáu eu meirw. Roedd hyn yn cynnwys gwisgo dillad galaru, cael angladd helaeth a chostus yn aml, cwtogi ar ymddygiad cymdeithasol am gyfnod amser penodedig a rhoi cofadail addurnedig ar y bedd.



*Hers plwyf Aberriw, ger y Trallwng*



*Arch menyw gyfoethog*

# Trafodaeth...

- *Beth mae'r gwrthrychau'n ei ddweud wrthym am yr unigolyn a oedd wedi'i gladdu?*
- *Pa wrthrychau sy'n bwysig i chi? Gyda beth yr hoffech chi gael eich claddu?*
- *Sut ydym ni'n cofio pobl sydd wedi marw?*
- *Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd i bobl pan fyddan nhw'n marw?*

## Hefyd, ewch i...

*Capel Pen-rhiw*



## Related sessions...

*Bedd y Milwr Celtaidd (Gweithdy Rhithiol)*



AMGUEDDFA CYMRU

dychwelyd

AMGUEDDFA
CYMRU

# Mwy o Adnoddau Addysgu Oriel...







*amgueddfa.cymru/dysgu/*